**Sesiwn 2000-2001 Rhif 14**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2– ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2000

**Y Dirprwy Lywydd oedd Cadeirydd y sesiwn hwn**

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau i Rosemary Butler, yr Ysgrifennydd dros Addysg a Phlant**
Gofynnwyd y **4** cwestiwn cyntaf. Nid oedd Alun Cairns yn bresennol i ofyn Cwestiwn 3.

**2.17pm**

**Cwestiynau i Christine Gwyther, yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
Gofynnwyd y **3** chwestiwn cyntaf

**2.33pm**

**Mater o Drefn**

**1.** Cofnododd **Mick Bates** ei anhapusrwydd o dan Reol Sefydlog 6.14 na fwriwyd pleidlais ar Welliant 4 a gyflwynwyd yn ei enw yn y ddadl ddoe ar Hela. Dywedodd y **Dirprwy Lywydd** na fyddai mater fel hwn fel arfer yn cael ei ystyried yn fater o drefn gan ei fod yn ymwneud â'r ffordd y gwnaeth y Llywydd ymdrin â busnes ac y dylai felly holi'r Llywydd ynghylch y mater. Dyfarnodd fod y mater wedi'i drin yn y ffordd briodol.

**2.** Cododd **Ieuan Wyn Jones** fater o drefn ynghylch y sylwadau a wnaed gan Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn gynharach yn y dydd.

**3. David Davies,** ynghylch arddangosfeydd yn Neuadd y Cynulliad.

**4. Nick Bourne,** ynghylch y modd yr ymdriniwyd â chwestiynau heddiw. Dywedodd y

**Dirprwy Lywydd** bod trefn y cwestiynau ar y papur busnes wedi'i gwyrdroi ac o'r herwydd, ei bod wedi caniatau i Aelodau a oedd yn cyrraedd y Siambr ar ôl iddynt gael eu galw, i ofyn eu cwestiwn. Dyfarnodd os na fyddai Aelodau'n bresennol pan y'u gelwid yn y dyfodol a chyn belled na fyddai problem dechnegol, y câi eu cwestiynau eu gwrthod.

**2.48pm**

**Cymeradwyo Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Amrywio) 2000. (Rhan 2 y Gorchymyn yn dibynnu ar Gymeradwyaeth Seneddol)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol ag adran 22(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn cymeradwyo'r drafft o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Amrywio) 2000, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2000

Datganodd yr Aelodau canlynol fod ganddynt fudd yn y mater fel athrawon:

Gareth Jones, Janet Ryder, Owen Jon Thomas, Cynog Dafis, Ron Davies, Andrew Davies, Sue Essex, Mike German, Jenny Randerson, Mick Bates, Christine Humphries, Christine Chapman

Cymerwyd pleidlais:

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46.

**Cymeradwywyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Amrywio) 2000**

**3.00pm**

**Dadl ar Bwyllgorau Rhanbarth**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi adroddiadau Pwyllgorau Rhanbarth y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin, ac yn ystyried yr agwedd a gymerir gan y Pwyllgorau Rhanbarth yn ystod y deuddeg mis nesaf

**Detholwyd y gwelliannau canlynol: Christine Humphreys (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu ar y diwedd:

"Mae'r Cynulliad hwn hefyd yn credu y dylid cryfhau rôl y Pwyllgorau Rhanbarth drwy:

- roi iddynt y gallu i gymryd tystiolaeth

- creu ffordd iddynt weithio’n agosach â phwyllgorau pwnc y Cynulliad gan gynnwys rhoi iddynt y gallu i lunio adroddiadau i’w hystyried gan y pwyllgorau hynny, a chan Ysgrifenyddion perthnasol y Cynulliad

rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i’w cyfarfodydd er mwyn denu mwy o aelodau’r cyhoedd i gymryd rhan"

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant**

O Blaid 36;Ymatal 4; Yn erbyn 4; Cyfanswm 44.

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 41; Ymatal 3; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44.

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.02pm**

**Dadl ar yr Iaith Gymraeg**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu’r cynnydd pellach a wnaed o ran yr iaith Gymraeg ym mlwyddyn gyntaf datganoli, sydd wedi cynnwys:

- Gweithredu’n llawn ofynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn ysgolion di-Gymraeg;

- Llywodraeth y DU yn llofnodi’r Siarter Ewropeaidd dros Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol;

- Cynyddu adnoddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg yng nghylch cyllideb 1999/00.

2. Yn cadarnhau’r penderfyniad a wnaed yn y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed ar 16 Chwefror; ac

3. Yn croesawu’r cyfle a gynigir gan yr Adolygiad arfaethedig, a gynhelir bob pum mlynedd, i

ystyried yn fanwl weithgareddau Bwrdd yr Iaith Gymraeg a’i ddull o weithredu.

**Detholwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled cyntaf newydd ac ailrifo’n unol â hynny:

'Yn nodi’r ymrwymiad yn nogfen Gwell Cymru i feithrin manteision dwyieithrwydd.'

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ar ddechrau’r cynnig, ychwanegu pwynt 1 newydd ac aildrefnu’r pwyntiau sy’n dilyn:

1. Yn cydnabod cyfraniad sefydlu S4C a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i Gymru, ac yn croesawu’r camau cadarnhaol eraill a ddeilliodd o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 1, dileu’r pwynt bwled cyntaf.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**

Ym mhwynt 2, dileu "cadarnhau" a rhoi "nodi" yn ei le

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion);**
Dileu ' ac' ar ddiwedd pwynt 2

Ychwanegu pwynt bwled newydd ac ailrifo’n unol â hynny:

'Yn galw ar y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed i neilltuo amser yn ei flaenraglen waith cyn gynted ag y bo modd i gynnal adolygiad cynhwysfawr o bolisi’r iaith Gymraeg er mwyn llunio strategaeth ar gyfer y dyfodol; ac '

**Gwelliant 6 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**

Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger pwynt bwled newydd

"Yn ymrwymo i fabwysiadu polisïau a fydd yn cynnal cymunedau Cymru ac yn sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg o fewn y cymunedau hynny"

**Gwelliant 7 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger pwynt bwled newydd:

"Yn cadarnhau ei gred bod yr iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, ac yn ymrwymo i gydweithredu â chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint â phosibl o gyfleoedd i bobl ymhob rhan o Gymru gymryd rhan yn niwylliant a bywyd cyhoeddus dwyieithog Cymru"

**Gwelliant 8 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger pwynt bwled newydd:

"Yn cytuno y dylid neilltuo amser yn amserlen y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 i drafod yr angen am Ddeddf Iaith newydd i Gymru ac i ystyried beth a ddylai fod mewn deddf o'r fath, gyda golwg ar gyflwyno argymhellion i lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy'r sianeli priodol"

**Gwelliant 9 - Christine Humphreys (Gogledd Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwaneger pwynt bwled newydd:

"Yn gresynu nad yw'r Adran dros Addysg a Chyflogaeth yn fodlon cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu dyfodol Ysgol Gymraeg Llundain, ac yn galw ar yr Adran honno i ailystyried ei phenderfyniad i beidio ag ariannu'r ysgol bwysig a gwerthfawr hon"

**4.20pm**

**Mater o Drefn:** Cododd **Ieuan Wyn Jones** fater o drefn ynghylch y diffyg amser ar gyfer y ddadl hon, a hyd yr araith agoriadol.

**4.45pm**

Cynigiodd **Ieuan Wyn Jones g**ynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 a 6.18 i barhau â'r ddadl am hanner awr arall er mwyn caniatau mwy o siaradwyr i gyfrannu.

Cadarnhaodd **y Dirprwy Lywydd** y byddai'n fodlon cymryd cynnig trefniadol i ohirio'r ddadl tan ddiwrnod arall ond nid i ganiatau hanner awr arall o drafod y diwrnod hwnnw gan y byddai hynny'n golygu bod y ddadl yn parhau wedi'r amser a bennwyd yn y Rheol Sefydlog ar gyfer trafod.

Wedi i 10 Aelod gytuno i gynnig cynnig trefniadol, cytunwyd ar y cynnig gan y Cynulliad ac mae'r ddadl hon felly wedi'i gohirio i barhau ar ddiwrnod arall y bydd y Trefnydd yn ei gyhoeddi mewn datganiad busnes.

**4.55pm**

**Dadl Fer:**

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd); Awdurdod Iechyd Bro Taf**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.28pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 27 MEHEFIN 2000

Asesiad o Effaith Rhoi Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 Mewn Grym

The Air Quality (Wales) Regulations - Summary of Responses to the Consultation – Nid oes copi Cymraeg

Dadl Plaid Leiafrifol Plaid Cymru - Cost Benefit Analysis of a Public Inquiry into the Nantygwyddon Landfill Site – Nid oes copi Cymraeg

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau (LC109) - The Genetically Modified and Novel Foods (Labelling) (Wales) Regulations 2000 – Nid oes copi Cymraeg

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau (LC110) - The National Health Service (General Medical Services) Amendment (No.2) (Wales) Regulations 2000 – Nid oes copi Cymraeg

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau (LC111) - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau (LC112) - Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000